# Comisiwn y Cynulliad

| | |
|---|---|
| Lleoliad: | **Swyddfa'r Llywydd, 4ydd Llawr, Tŷ Hywel** |
| Dyddiad: | **Dydd Iau, 2 Mai 2013** |
| Amser: | **10:30 - 12:00** |

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

## Cofnodion: AC(4)2013(6)

| | |
|---|---|
| Yn bresennol: | **Rosemary Butler (Cadeirydd)**<br>**Peter Black**<br>**Angela Burns**<br>**Sandy Mewies**<br>**Rhodri Glyn Thomas** |
| Swyddogion yn bresennol: | **Claire Clancy, Y Prif Weithredwr a Chlerc y Cynulliad (Swyddog)**<br>**Adrian Crompton, Cyfarwyddwr Busnes y Cynulliad (Swyddog)**<br>**Non Gwilym (Swyddog)**<br>**Craig Stephenson, Prif Ysgrifennydd Preifat y Llywydd (Swyddog)**<br>**Carys Evans, Prif Ysgrifennydd y Comisiwn (Swyddog)** |
| Eraill yn bresennol: | **David Melding, y Dirprwy Lywydd**<br>**Mair Barnes, Cynghorwr Annibynnol** |

## 1. Cyflwyniad y Cadeirydd

1(i) Cyflwyniad ac ymddiheuriadau

Ni chafwyd ymddiheuriadau ar gyfer y cyfarfod hwn;

1(ii) Datganiadau o fuddiant

Ni chafwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant.

1(iii) Cofnodion y Cyfarfod Blaenorol

Cytunwyd ar y cofnodion.

## 2. Gwaith ymgysylltu ac allgymorth – cynnwys pobl ifanc yng ngwaith y Cynulliad

Mae sicrhau bod plant a phobl ifanc yn deall ac yn chwarae rhan weithredol yng ngwaith y Cynulliad yn allweddol os yw'r Comisiwn am lwyddo i gyflawni ei nod o ymgysylltu â phobl Cymru.

Yn dilyn adolygiad diweddar, cafodd y Comisiynwyr adroddiad ar waith gwasanaeth addysg y Cynulliad. Teimlwyd bod y gwasanaeth yn cynnal ystod o weithgareddau o ansawdd uchel ar hyn o bryd. Er enghraifft, mae'n rhoi cyfleoedd i bobl ifanc gyfrannu at faterion gerbron y Cynulliad drwy ymchwiliadau pwyllgor a'r gwaith allgymorth gydag ysgolion ac athrawon.

Ystyriwyd bod gweithgareddau a oedd yn galluogi plant a phobl ifanc i ddysgu am y Cynulliad a'i waith yn bwysig iawn, ac er y dylai hwn fod ar gael o hyd, dylai gael ei ddarparu mewn ffordd wahanol. Teimlai'r Comisiynwyr hefyd bod rhagor o bosibiliadau i ddatblygu cyfleoedd i bobl ifanc ymwneud yn uniongyrchol â busnes y Cynulliad.

Er mwyn datblygu'r gwaith hwn a chryfhau'r ystod o gyfleoedd i bobl ifanc ymgysylltu â'r Cynulliad, cytunodd y Comisiynwyr ar y canlynol:

- dylai gwaith y gwasanaeth addysg esblygu o ganolbwyntio yn bennaf ar godi ymwybyddiaeth o'r Cynulliad a chyfrannu'n uniongyrchol at y cwricwlwm cenedlaethol, tuag at gynyddu'r cyfleoedd i lywio busnes y Cynulliad a chymryd rhan ynddo;
- dylai'r Cynulliad barhau i wneud cyfraniad sylweddol at ddarparu’r cwricwlwm drwy sicrhau bod yr ystod o ddeunyddiau addysgol helaeth ar gael yn agored i athrawon, ysgolion ac eraill sy'n siarad yn rheolaidd â phobl ifanc am y Cynulliad, gan gynnwys yr Aelodau a'u staff.

Fel rhan o'r gwaith hwn, bydd grŵp llywio yn cael ei sefydlu a'i waith fydd datblygu syniadau am ffyrdd newydd o ymgysylltu â phobl ifanc, er enghraifft drwy gymryd rhan o bell drwy ddefnyddio technoleg neu Gynulliad Ieuenctid. Roedd teimlad cryf mai pobl ifanc a fyddai wrth wraidd y gwaith hwn. Hwy a fyddai'n llunio'r gwaith ac yn nodi'r ffyrdd gorau o sicrhau bod ystod amrywiol o unigolion yn gallu cymryd rhan. Byddai hyn yn ei gwneud yn ofynnol i ddatblygu dulliau arloesol a chreadigol o fynd i'r afael â'r gwaith.

Gofynnodd y Comisiynwyr am gael y wybodaeth ddiweddaraf yn rheolaidd am y gwaith hwn wrth iddo ddatblygu dros weddill y flwyddyn ariannol hon.

Diolchodd y Comisiynwyr i'r swyddogion am y gwaith a gyflawnwyd i lywio'r trafodaethau ac i’w cynorthwyo â'u penderfyniadau.

## 3. Unrhyw Fusnes Arall

Nid oedd materion eraill i’w trafod.

**Yr Ysgrifenyddiaeth**
**Mai 2013**